



Cynllun Lles Sir y Fflint

Adroddiad Blynyddol 2019/20



FLINTSHIRE PUBLIC SERVICES BOARD
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT

Cynnwys

Partneriaid	3
Cyflwyniad gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint	4
Saith Nod Lles	5
Pum Ffordd o Weithio	6
Adroddiad Blynyddol	7
Partneriaid y Sector Cyhoeddus yn Gweithio gyda'i Gilydd	8
Ymrwymadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn 2019/20	9
Diogelwch Cymunedol	10
Amgylchedd	13
Byw'n Iach ac Annibynnol	15
Cymunedau Gwydn	20
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	24
Datblygiadau'r Dyfodol	26

Partneriaid

Dyma bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint. Mae'r sefydliadau hyn wedi helpu i ddatblygu a chyflawni Cynllun Lles Sir y Fflint:



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



FLINTSHIRE PUBLIC SERVICES BOARD
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT



Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint



PRIFYSGOL
glyndŵr
UNIVERSITY



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gwasanaeth Carchardai a
Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation
Service in Wales

Pictures: Craig Colville



cyflwyniad

Cyflwyniad gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint

Mae gan Sir y Fflint hanes hir a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn disgwyl i bartneriaid statudol athrydydd sector weithio gyda'i gilydd i rannu blaenoriaethau drwy gydweithio. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint (BGC) yn greiddiol i'r gwaith o hybu diwylliant cadarnhaol o gydweithio ac mae'n canolbwyntio ei egni, ymdrech ac adnoddau ar ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i gymunedau lleol.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn dîm cryf ac unedig. Mae perfformiad ynghlwm

â'n blaenoriaethau'n cael ei drafod yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Yn ogystal â gweithio tuag at y blaenoriaethau hyn rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y partneriaethau cefnogi yn gweithio'n effeithiol o fewn eu briffiau penodol i wella gwasanaethau a chanlyniadau i bobl leol.

Hyderwn fod ein Hadroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth ac yn ysbrydoli. Mae Sir y Fflint yn Sir sy'n perfformio'n dda ac mae ganddi ddyfodol cadarnhaol. Gyda'n gilydd, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth positif nawr ac yn y blynyddoedd sydd i ddod.



Colin Everett

Cyngor Sir Y Fflint / Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint



Rob Smith

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint



Richard Fairhead

Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru / Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint




Saith Nod Lles

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth flaengar a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru.

Nod y ddeddfwriaeth arloesol yma yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y tymor hir.

Ategir y Ddeddf gan saith nod lles:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



Pum Ffordd o Weithio

Gelwir y pum ffordd o weithio'n egwyddorion datblygu cynaliadwy:



Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithio



Cynnwys

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cefnogi'r nodau lles a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a amlinellir uchod ac yn dangos sut y maent wedi'u hymgorffori yn ein blaenoriaethau.

Er bod y Bwrdd yn sylweddoli bod llawer y gallwn ei wneud i ychwanegu gwerth at wasanaeth cyhoeddus a chymunedau Sir y Fflint, rydym wedi gosod pum blaenoriaeth ddechreuol a nifer o flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn. Cafodd y blaenoriaethau hyn eu dewis ar sail y meysydd lle teimlai'r Bwrdd y gallai ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol go iawn ynddynt.

Mae blaenoriaethau'r Bwrdd fel a ganlyn:-

- Diogelwch Cymunedol
- Yr Economi a Sgiliau*
- Yr Amgylchedd
- Byw'n Iach ac yn Annibynnol
- Cymunedau Gwydn

Amcan y Bwrdd yw cydweithio i wneud gwahaniaeth yn y blaenoriaethau hyn, gan gofio na all yr un sefydliad gyflawni hyn ar ei ben ei hun; gall y sefydliadau partner a gynrychiolir ar y Bwrdd gyda'i gilydd wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bobl sy'n byw, yn ymweld ag, ac yn gweithio yn Sir y Fflint.

*Ni wnaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint flaenoriaethu unrhyw ffrydiau gwaith newydd i gefnogi thema'r Economi ddyheadol (1) wrth aros am gwblhau Bargen Twf Economaidd Gogledd Cymru a (2) oherwydd gofynion a blaenoriaethau gwaith eraill. Mae'r BGC wedi cefnogi nifer o ffrydiau gwaith cyflenwol yn y gorfennol, megis mynediad i gynlluniau gwaith, a rolau gweithwyr y sector cyhoeddus o ran rhaglenni prentisiaeth."

Adroddiad Blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn trafod:-



Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad wrth gyflawni ein blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Lles Sir y Fflint 2019/20 sy'n:

- + Bodloni rhwymedigaethau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- + Darparu safbwynt cytbwys; yn ategu llwyddiant; yn amlygu meysydd â heriau i'w goresgyn ac yn manylu ar flaenoriaethau ar gyfer 2020/21

Partneriaid sector cyhoeddus yn cydweithio

Nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn newydd yn Sir y Fflint. Roedd ei ragflaenydd, y 'Bwrdd Gwasanaethau Lleol' eisoes wedi gosod seiliau cadarn i weithio mewn partneriaeth, gan ddeall y byddai partneriaid sector cyhoeddus (a gwirfoddol) yn cydweithio'n fwy effeithiol nag un sefydliad yn ceisio ymdrin â materion cymdeithasol.

Mae meithrin perthnasoedd gwaith cryf fel cyflogwyr wedi sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da wedi'u rhannu a'u datblygu. Mae'r Bwrdd wedi ac yn parhau i ganolbwyntio ar iechyd a lles y gweithlu, gyda mwy a mwy o sylw ar gyfer iechyd meddwl a chymorth.

Trwy gydweithio mewn amgylchedd cydweithredol a diogel ond heriol y byddwn ni'n parhau i brofi llwyddiant creadigol ac arloesol.

Ymrwymïadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn 2019/20

At 2019/20, gosododd y Bwrdd bum blaenoriaeth a nifer o flaenoriaethau o fewn y flwyddyn fel mae Cynllun Lles Sir y Fflint yn ei nodi:

Mae'r set nesaf o dudalennau'n manylu ar yr ymrwymïadau hyn, beth sydd wedi'i gyflawni, yr heriau i'w goresgyn a'r ymrwymïadau sydd i barhau yn 2020/21.

- 01 **Diogelwch Cymunedol**
- 02 **Yr Economi a Sgiliau**
- 03 **Yr Amgylchedd**
- 04 **Byw'n Iach ac yn Annibynnol**
- 05 **Cymunedau Gwydn**





01 | Diogelwch Cymunedol

PERFFORMIAD CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos perfformiad cryf gan ddefnyddio data (*lle y bo'n bosibl*)

- Comisiynwyd ail Adolygiad Dynladdiad Domestig - Gwnaed cynnydd da wrth symud ymlaen gydag ail Adolygiad Dynladdiad Domestig Sir y Fflint. Mae'r adolygiad bellach bron â gorffen ac yn aros am gytundeb ar yr argymhellion. Yna, bydd yn mynd i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'w gymeradwyo yn 2020/21
- Gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru
- Codwyd ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched drwy gefnogi'r Ymgyrch Rhuban Gwyn Rhyngwladol ar lefel leol a rhanbarthol. Mudiad byd-eang i roi diwedd ar drais gan ddynion yn erbyn merched yw'r Ymgyrch Rhuban Gwyn. Yn nigwyddiad y llynedd, dosbarthwyd rhubanau gwyn i Aelodau'r Cabinet, gosodwyd stondinau yn nau goleg addysg uwch Sir y Fflint, ynghyd â chyfle i dynnu lluniau. Rhoddwyd rhubanau gwyn i Glybiau Ffermwyr Ifanc yn y Sir i godi ymwybyddiaeth o'r mater.
- Targedu'r rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro (oedolion) drwy broses Rheoli Troseddwr Integredig. Nodi'r rhai sy'n achosi'r mwyaf o niwed (troseddwr cyson iawn) a mynd i'r afael â'u hymddygiad o aildroseddu
- Targedu troseddwr ifanc i leihau troseddu ac aildroseddu drwy weithredu Cynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Sir y Fflint
- Mae mentrau troseddau cyllyll amlasiantaeth wedi dod yn eu blaenau, a sefydlwyd grŵp troseddau cyllyll amlasiantaeth newydd i sicrhau ymateb effeithiol i'r cynnydd mewn troseddau cyllyll. Mae'r grŵp yn bwrw ymlaen â nifer o fentrau i leihau troseddau cyllyll, gan gynnwys astudiaeth i droseddau cyllyll yn yr ardal gan ymchwilydd o Brifysgol Glyndŵr






01 | Diogelwch Cymunedol

STRAEON CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos straeon cryf gan ddefnyddio cerrig milltir a chyraeddiadau

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynhyrchu Asesiad o Anghenion Llinellau Sir rhanbarthol i fynd i'r afael â'r broblem ledled Gogledd Cymru. Dyfeisiwyd a chytunwyd ar yr argymhellion drwy'r Bwrdd Mae Pobl yn Ddiogel, a fydd yn eu llywio yn y flwyddyn berfformiad nesaf
- Hyrwyddwyd a chefnogwyd gwaith allgymorth uwch yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Er mwyn cadw pobl yn ddiogel, ymateb allgymorth cydweithredol aml-asiantaeth arbenigol a all ymgysylltu / ail-ymgysylltu'n llwyddiannus ag unigolion diamddiffyn sy'n byw ag anghenion cymhleth o ran camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a digartrefedd, nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau prif ffrwd, neu wedi colli cysylltiad â nhw
- Mae Fforwm Cam-drin Domestig newydd wedi'i sefydlu a chaiff ei gadeirio gan Arweinydd Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint. Mae'n fforwm amlasiantaeth o asiantaethau partner, gan gynnwys y rhai o'r trydydd sector. Bydd y fforwm yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol, am ei fod yn ymwneud â goroeswyr, cyflawnwyr, teuluoedd a chymunedau, yn cael sylw effeithiol a strategol
- Cyfarfod Sefydledig sy'n ymwneud ag Unigolion Diamddiffyn a Rheoli Risg. Panel amlasiantaeth yw hwn i reoli'r galw gan unigolion diamddiffyn yn Sir y Fflint. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwe wythnos ac mae'r dull amlasiantaeth wedi helpu i reoli'r materion sy'n effeithio ar bobl ddiamddiffyn sydd wedi cael eu hatgyfeirio at y grŵp
- Cyflwyno'r Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd yn Sir y Fflint i grwpiau galwedigaethol allweddol sydd wedi codi ymwybyddiaeth ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd yn cael ei hyrwyddo gan lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n cefnogi ymateb amlasiantaeth i nodi pobl ddiamddiffyn ac ymyrryd yn gynnar a'u cadw allan o'r system cyfiawnder troseddol.
- Grŵp amlasiantaeth yw'r Grŵp Lleihau Galw yn y Gymuned sy'n cael ei gadeirio gan Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Sir y Fflint. Cynhaliwyd ei ddull o fynd i'r afael â Throsedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drwy gyfarfodydd tasgau a gweithwyr proffesiynol misol ad hoc. Drwy ei ddull amlasiantaeth dan arweiniad cudd-wybodaeth, mae'r grŵp wedi cyfrannu at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nhreffynnon a'r cyffiniau





01 | Diogelwch Cymunedol

GWAITH A DDYGWYD YMLAEN FEL BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020/21 - Meysydd a fydd yn parhau y flwyddyn nesaf


Bydd llawer o'r meysydd gwaith a nodwyd ar gyfer y flaenoriaeth hon yn parhau yn 2020/21. Yn benodol:

- Llinellau Sirol
- Gwaith Amlasiantaeth i fynd i'r afael â Throsedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Rhannu Cudd-wybodaeth yn Effeithiol
- Cefnogi Adolygiad Rhanbarthol o Ddiogelwch Cymunedol

Yn ogystal, fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol i sicrhau bod blaenoriaethau rhanbarthol yn cael sylw ac yn cael eu dwyn ymlaen

HERIAU - Risgiau a Rhwystrau (Agored/byw a'r rhai sy'n cael eu goresgyn yn y flwyddyn)

- Effaith Pandemig y Coronafeirws Mae hyn wedi cael cryn effaith ar wasanaethau cyhoeddus, a fydd yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau wrth symud ymlaen i 20/21. Maes o law, bydd angen adolygu'r Cynllun Mae Pobl yn Ddiogel i ddarparu ar gyfer ac adlewyrchu unrhyw feysydd blaenoriaeth sy'n newid





Yr Amgylchedd

03 | Yr Amgylchedd

PERFFORMIAD CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos perfformiad cryf gan ddefnyddio data (*lle y bo'n bosibl*)

- Cwblhau'r prosiectau coedwig hir yn Sir y Fflint, a oedd yn gyfystyr â phlannu 6,000 o wrychoedd
- Mae'r tîm Mynediad Cefn Gwlad wedi datrys 436 o broblemau'n ymwneud â llwybrau ac wedi gosod 50 giât mochyn newydd
- Mae Sir y Fflint wedi cwblhau blwyddyn lawn o gydlynu'r bartneriaeth natur ranbarthol. Ymhlith y prosiectau a gyflwynwyd mae datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, ac mae map 'ased gwyrdd' wedi'i gynhyrchu
- Mae Adran 6 o Adolygiad Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth wedi'i gwblhau ac mae wedi'i gyhoeddi ar y wefan. Cynllun statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yw hwn, sy'n canolbwyntio ar weithredu i gynyddu bioamrywiaeth yn y sir

STRAEON CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos straeon cryf gan ddefnyddio cerrig milltir a chyraeddiadau

- Lanswyd y canolbwynt casglu sbwriel ym Maes Glas yn swyddogol mewn partneriaeth â Tesco
- Sefydlwyd ParkRun Newydd ym Maes Glas. Bydd hyn yn ychwanegu at y fenter fyd-eang i annog ffyrdd iach o fyw gyda chyfranogwyr yn rhedeg - neu gerdded 5 km wedi'i amseru
- Mae gwaith rheoli Llwybr Arfordir Cymru yn parhau gyda grant Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu llwybr o ansawdd ar safon genedlaethol. Eleni, gwelwyd ffordd arall o nodi prosiect yn cael ei gwblhau yn Doc Maes Glas
- Cyflwyno Cefnogwyr Eco Sir y Fflint, sy'n cyflwyno sesiynau addysgol ar gynaliadwyedd gydag ysgolion cynradd
- Cyflwyno'r ymgyrch blodau gwylt i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein blodau gwylt. Roedd yn cynnwys negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau cyhoeddus
- Morlinau Dyfrdwy - Mapio Cam 1 - hygyrchedd i fudd-ddeiliaid a'r gymuned i Forlin Dyfrdwy





03 | Yr Amgylchedd

GWAITH A DDYGWYD YMLAEN FEL BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020/21 - Meysydd a fydd yn parhau y flwyddyn nesaf

- Cyhoeddwyd Datganiadau Ardal y Gogledd Ddwyrain ym mis Ebrill 2020, a fydd yn cefnogi cyfleoedd ac ymgysylltiad wrth symud ymlaen
- Parhau gyda Rhaglen Cefnogwyr Eco Sir y Fflint
- Rhaglen plannu coed
- Prosiectau Llywodraeth Cymru - Creu Ystadau Gwyrdd a Natur ar eich stepen drws
- Mynediad i Barc siopa Brychdyn a gwella'r Seilwaith Gwyrdd
- Prosiect Coetir Cymunedol Gofal a Thrwsio
- Nodi llwybrau cerdded a llwybrau beicio ar gyfer Prosiect Llwybrau Diogel i'r Ysgol

HERIAU - Risgiau a Rhwystrau (*Agored/byw a'r rhai sy'n cael eu goresgyn yn y flwyddyn*)

- Diddymu'r Grant Amgylchedd Sengl
- Clefyd Coed Ynn
- Sicrhau bod y Rhaglen Adferiad Gwyrdd yn gysylltiedig ag amcanion Gwydnwch Cymunedol COVID 19 Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a'u bod yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd ac yn cyd-fynd ag Amcanion Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Amgylchedd Sir y Fflint.






04 | Byw'n Iach ac yn Annibynnol

PERFFORMIAD CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos perfformiad cryf gan ddefnyddio data (*lle y bo'n bosibl*)

- Cyfanswm y mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer eiddo domestig sy'n cynorthwyo rhai o'r trigolion mwyaf diamddiffyn yn Sir y Fflint oedd 2,175 o osodiadau
- Nifer yr oedolion dros 65 oed a gafodd gymorth i fyw gartref oedd 40 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth
- Nifer yr oedolion dros 65 oed a gafodd gymorth mewn cartrefi gofal oedd 14 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth
- Cwblhaodd 70% o oedolion gyfnod ail-alluogi ac roedd modd iddyn nhw ostwng eu pecyn gofal neu ymdopi heb ofal am o leiaf 6 mis
- Roedd 75% o bobl sy'n cael mynediad at y gwasanaeth 'Un Pwynt Mynediad' ar gyfer Cyngor a Chymorth na fu'n rhaid iddyn nhw ofyn am gymorth eto am chwe mis
- Darparodd y Canolbwynt Cymorth Cynnar wybodaeth a chefnogaeth i 1,341 o deuluoedd
- Cefnogwyd 580 o bobl gyda thaliadau uniongyrchol, gan roi dewis a rheolaeth iddynt dros sut roedden nhw'n derbyn eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynrychioli dros 40% o bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol "yn y cartref" yn Sir y Fflint
- Interniaethau â chymorth ar gyfer naw oedolyn ifanc ag Anabledd Dysgu drwy Project Search
- Llwyddodd tri chartref gofal i ennill Gwobr Ansawdd Cynnydd i Ddarparwyr ar lefel Arian, ac 13 Cartref arall yn ennill gwobr Efydd. Mae ei gyflwyno i'r sector gofal cartref wedi gweld 4 darparwr yn cyrraedd y safon Arian
- Cwblhawyd 95% o ymholiadau diogelu oedolion o fewn amserlenni
- Manteisiodd 3,385 o blant drwy 535 o ddarparwyr ar y 'Cynnig Gofal Plant'
- Gwnaethom recriwtio 18 o ofalwyr maeth newydd





Byw'n Iach ac
yn Annibynnol

04 | Byw'n Iach ac yn Annibynnol

STRAEON CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos straeon cryf gan ddefnyddio cerrig milltir a chyraeddiadau

- Agor Canolfan Ddyddnewydd gwerth £4m ar gyfer oedolion gydag anabledau dysgu. Mae Hwb Cyfle yn darparu lleoliad modern, hygyrch a bywiog ar gyfer darparu gwasanaethau dydd o ansawdd uchel mewn partneriaeth â Hft, a chyfleusterau dan do ac awyr agored hygyrch i wella iechyd a lles y gymuned ehangach
- Datblygu cynllun Gofal Ychwanegol o 55 fflat newydd yn Nhreffynnon, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Wales and West. Bydd y cynllun yn darparu llety â chymorth modern pwrpasol yn agos at ganol tref Treffynnon. Mae hyn yn ehangu ar y cynlluniau gofal ychwanegol hynod llwyddiannus a ddatblygwyd yn yr Wyddgrug, Shotton a'r Fflint
- Lansio Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol mewnol yn llwyddiannus gan alluogi gwell cefnogaeth ac arweiniad i bobl sy'n dewis trefnu eu cefnogaeth eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn darparu dulliau newydd gan gynnwys gwybodaeth hygyrch a phorth ar-lein, ac mae wedi ennill enw da iawn ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi marchnad y sector preifat yn Sir y Fflint i wella'r cyflenwad o Gynorthwyr Personol o ansawdd uchel fel dewis arall yn lle gwasanaethau cartref traddodiadol a gofal critigol
- Treialu Prosiect Micro-ofal fel dull arloesol o wella'r cyflenwad gofal. Mae tri busnes Micro-Ofal wedi'u sefydlu i ddarparu gwasanaethau gofal personol gyda chefnogaeth lles estynedig i drigolion Sir y Fflint. Mae saith busnes arall yn cael eu cefnogi i gychwyn erbyn mis Medi 2020
- Cynlluniau wedi'u cytuno a threfniadau ariannol ar waith i ehangu Cartref Gofal Marleyfield House ym Mwcle, i'w gwblhau yn 2021. Cefnogir y prosiect cyfalaf uchelgeisiol hwn gan y Gronfa Gofal Integredig a'r Rhaglen Tai Arloesol ac mae'n dangos y bartneriaeth waith gref sydd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Maen nhw'n darparu gofal preswyl modern ac effeithlon a chyfleusterau camu i fyny / camu i lawr i bobl hyn yn Sir y Fflint, gan eu galluogi i fyw'n dda yn eu cartref neu'n agos at eu cartref.






Byw'n Iach ac
yn Annibynnol

04 | Byw'n Iach ac yn Annibynnol

STRAEON CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos straeon cryf gan ddefnyddio cerrig milltir a chyraeddiadau

- Datblygu prosesau Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd i gefnogi prosesau recriwtio arloesol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a chryfhau gwerthoedd cymdeithasol y gweithlu a denu gweithwyr gofal newydd o gefndiroedd gofal anhraddodiadol
- Mewn partneriaeth â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, recriwtiwyd Swyddog Presgripsiynu Cymdeithasol i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng gwasanaethau meddygon teulu a chymorth yn y gymuned. Mae'r Swyddog yn cyfeirio pobl sydd ag anghenion anghlinigol at unigolyn neu grŵp sy'n eu helpu i weithio allan yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd hyn yn helpu i nodi'r hyn y gall eraill ei wneud i'w cynorthwyo, sut i elwa o'r cynnig hwnnw i wella lles
- Datblygu model gofal maeth 'teulu estynedig' Mockingbird sy'n annog grŵp o ofalwyr maeth cymunedol i feddwl a gweithredu fel teulu eang. Mae hyn yn hwyluso cefnogaeth gan gymheiriaid, cyd-gynllunio rheolaidd, hyfforddiant a gweithgareddau cymdeithasol i wella sefydlogrwydd lleoliad a chryfhau perthnasoedd
- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ei gydnabod gan y Gymdeithas Alzheimer fel y Cyngor sy'n 'Gweithio tuag at Ddeall Dementia'. Creu tudalennau gwe Dementia pwrpasol ar wefan y Cyngor i alluogi trigolion i nodi gwybodaeth ac adnoddau priodol i'w cefnogi nhw a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt
- Partneriaeth Strategol gyda Gweithredu dros Blant, gan adeiladu ar lwyddiant y Prosiect Teulu a'r Prosiect Dychwelyd ac Atal, i weithio gyda phlant ar gyrion gofal, a chefnogi'r rhai mewn gofal i ddychwelyd adref
- Adborth cadarnhaol gan ein Rheoleiddiwr yn dilyn gwaith â ffocws yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan edrych ar sut rydym yn darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth, Cymorth Cynnar i deuluoedd, a phrofiad plant sy'n dod i mewn i'r system ofal
- Bu ymgysylltiad cryf o ran datblygu a gweithredu'r Swyddfa Cartref yn Gyntaf, sef y cyfrwng ar gyfer rheoli'r sawl sy'n cael eu rhyddhau/trosglwyddo o'r ysbyty aciwt. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at leihad mewn oedi wrth drosglwyddo gofal






04 | Byw'n Iach ac yn Annibynnol

GWAITH A DDYGWYD YMLAEN FEL BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020/21

- Meysydd a fydd yn parhau y flwyddyn nesaf

- Ehangu Gofal Ychwanegol Cyflawn
- Datblygu cynlluniau ymestyn gofal preswyl mewnol
- Cynyddu'r ddarpariaeth ac addasu'r modelau o ofal cartref er mwyn bodloni'r galw
- Gwella nifer y bobl gydag anabledd dysgu sy'n gweithio hyd at 16 awr yr wythnos
- Datblygu camau gweithredu ymhellach i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia
- Ymestyn darpariaeth breswyl ar gyfer plant ag anghenion cymhleth
- Lansio ein cynllun Mockingbird Mewnol (Gofal Maeth) cyntaf a lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau allanol sy'n costio'n ddrud
- Treialu tîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd ar gyfer plant dan fygythiad o ddod i mewn i'r system ofal neu y mae eu trefniadau gofal yn chwalu
- Gwella cefnogaeth iechyd meddwl i rieni drwy'r Canolbwynt Cymorth Cynnar
- Arwain y gwaith o Drawsnewid gwasanaethau Anableddau Dysgu Rhanbarthol
- Arwain y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Rhanbarthol
- Cydleoli CRT ac Un Pwynt Mynediad Sir y Fflint yn Nhŷ Dewi Sant er mwyn parhau â'n dull cydgysylltiedig wrth gydlynw anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth






04 | Byw'n lach ac yn Annibynnol

HERIAU - Risgiau a Rhwystrau (*Agored/byw a'r rhai sy'n cael eu goresgyn yn y flwyddyn*)

- Creu cymhwysedd yn y sector preswyl a nyrso
- Cyrchu gofal digonol i unigolion gartref oherwydd pwysau ar y farchnad ofal
- Lleihau gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer plant ag anghenion cymhleth
- Sicrhau hygrychedd gwasanaethau ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu neu awtistiaeth
- Atal plant a phobl ifanc rhag cam-fanteisio arnyn nhw
- Pwysau ariannol ychwanegol ar deuluoedd dan straen sy'n effeithio ar ansawdd perthnasoedd teuluol a chanlyniadau i blant
- Sicrhau digon o arian cenedlaethol i gefnogi teuluoedd diamddiffyn
- Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol newydd ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid





05 | Cymunedau Gwydn

PERFFORMIAD CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos perfformiad cryf gan ddefnyddio data (*lle y bo'n bosibl*)

- Penodi Swyddog Gwerth Cymdeithasol a darparu rhaglen hyfforddi ar gyfer swyddogion drwy weminarau i gynyddu'r defnydd o werth cymdeithasol wrth gaffael
- Mae'r timau mentora cyflogaeth yn helpu i gefnogi 253 o gyfranogwyr i wella eu cyfleoedd cyflogaeth
- Mae Caffi Cymunedol wythnosol Coed-llai (a grëwyd fel rhan o'r datblygiad Cymunedol sy'n Gyfeillgar i bob Oed) yn cael ei gynnal gan oddeutu wyth gwirfoddolwr ac mae mwy na 40 o drigolion lleol yn ymweld â'r caffi yn rheolaidd, llawer ohonynt yn oedrannus, gan leihau'r risg o unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae gwarged bach a gynhyrchir bob wythnos yn cyfrannu at fentrau eraill sy'n gyfeillgar i bob oed yn y gymuned






Cymunedau
Gwydn

05 | Cymunedau Gwydn

STRAEON CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos straeon cryf gan ddefnyddio cerrig milltir a chyraeddiadau

- Mae'r timau mentora cyflogaeth yn helpu i gefnogi 253 o gyfranogwyr i wella eu cyfleoedd cyflogaeth
- Mae'r elusen anabledd dysgu cenedlaethol Hft, Cyngor Sir y Fflint, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Choleg Cambria yn gweithio gyda'i gilydd i roi popeth sydd ei angen ar bobl ifanc ag anableddau dysgu i sicrhau cyflogaeth gystadleuol yn eu cymuned drwy Project SEARCH. Mae Project SEARCH yn cynnig ystod o leoliadau gwaith gyda'r nod o ddatblygu sgiliau newydd, sy'n cael eu cyfuno â sesiynau ystafell ddosbarth wedi'u cynllunio i fagu hyder a diwallu unrhyw anghenion hyfforddi. Mae'r garfan gyntaf o saith intern wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac maent bellach yn symud i waith â thâl
- Cyflwyno'r strategaeth ddigidol ar gyfer y rhanbarth gan wella cysylltedd ar gyfer busnesau, partneriaid yn y sector cyhoeddus a chymunedau yn Sir y Fflint. Mae cam gyntaf y cyflwyniad, sy'n cysylltu 400 o adeiladau cyhoeddus â'r rhwydwaith ffibr, ar y gweill ar hyn o bryd
- Cyflwynodd tîm ynni domestig y Cyngor 2,175 o fesurau effeithlonrwydd ynni i eiddo yn y Sir ar draws pob deiliadaeth. Targedwyd cefnogaeth yn bennaf at aelwydydd tlawd o ran tanwydd. Cefnogodd y buddsoddiad hwn 13 o swyddi a phedwar cyfle prentisiaeth yn ogystal
- Cwblhawyd y gwaith adnewyddu ar Ganolbwynt Cymunedol Holway
- Cyfleoedd i drigolion fod yn fwy egniol yn eu cymunedau drwy ymgyrch Beth am Symud
- Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gefnogi cymunedau i ddod yn Gyfeillgar i bob Oed. Ar hyn o bryd mae Coed-llai a Pontblyddyn yn eu trydedd flwyddyn o ddatblygu Cymuned sy'n Gyfeillgar i bob Oed, ac yn ychwanegol at y caffi cymunedol wythnosol maent wedi gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Derwenfa a chwmni arlwyio Newydd i ddatblygu clwb cinio misol. Fe'i lansiodd ym mis Hydref 2019 ac mae gan y clwb cinio fwy na 30 yn dod yno'n rheolaidd. Gellir defnyddio model y clwb cinio mewn ardaloedd eraill ac mae





05 | Cymunedau Gwydn

STRAEON CRYF - Meysydd lle gallwn ni arddangos straeon cryf gan ddefnyddio cerrig milltir a chyraeddiadau

cynlluniau ar waith i lansio clwb cinio ym Maes Glas fel rhan o'r datblygiad sy'n Gyfeillgar i bob Oed yn yr ardal. Mae grŵp llywio Treffynnon a'r Cylch wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cymunedol sy'n Gyfeillgar i bob Oed gyda'r blaenoriaethau canlynol: gwella dulliau cyfathrebu am weithgaredd cymunedol; mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch cymunedol; a gweithio tuag at fod yn Gyfeillgar i Dementia. Cefnogir datblygiad Cymunedol sy'n Gyfeillgar i bob Oed gan brosiect 'Rural Wisdom' a ariennir gan y Loteri Fawr

- Dechreuwyd cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad pobl hŷn yn y gymuned, er mwyn lleihau'r risg o unigrwydd ac arwahanrwydd ym Mhen-y-ffordd ger Treffynnon gyda chefnogaeth Ysgol Derwenfa. Mae bore coffi misol wedi'i sefydlu, mae staff a disgyblion wedi cymryd rhan mewn sesiynau Ymwybyddiaeth Dementia ac mae cynlluniau ar waith i gynnal hyfforddiant

llechen digidol mewn partneriaeth â Choleg Cambria i gynyddu sgiliau pobl hŷn sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn y gymuned.

- Mae ymgysylltu'r â'r gymuned hŷn yn yr Holway, fel rhan o ddatblygiad Cymunedol sy'n Gyfeillgar i bob Oed Treffynnon, wedi nodi tri chynrychiolydd cymunedol sy'n dymuno cael rôl weithredol yn y gwaith o reoli'r ganolfan gymunedol a datblygu gweithgareddau. Mae nifer o weithgareddau gyda'r nod o annog pobl hŷn i gymryd rhan yn y gymuned wedi cynnwys digwyddiadau ymgysylltu fel bore coffi, gweithgareddau crefft Nadolig a sinema dros dro






05 | Cymunedau Gwydn

GWAITH A DDYGWYD YMLAEN FEL BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020/21 – Meysydd a fydd yn parhau y flwyddyn nesaf

- Parhau i gyflawni'r strategaeth ddigidol
- Parhau i gyflawni'r mesurau effeithlonrwydd ynni i eiddo domestig yn Sir y Fflint, er mwyn lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd
- Parhau i gefnogi cymunedau sy'n gweithio i ddod yn Gyfeillgar i bob Oed
- Nodi a datblygu gwaith cymunedol arall yn yr ardal

HERIAU – Risgiau a Rhwystrau (*Agored/byw a'r rhai sy'n cael eu goresgyn yn y flwyddyn*)

- Cyllid cenedlaethol digonol i gefnogi cymunedau i ddatblygu eu gwydnwch
- Ymrwymiad ar lefel gymunedol i chwarae rhan weithredol yn natblygiad Cymunedol sy'n Gyfeillgar i bob Oed
- Cyfyngiadau ar weithgaredd cymunedol ac ymgysylltu â phobl hŷn sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn ystod pandemig COVID 19
- Adnoddau i gefnogi datblygiad y Gymuned sy'n Gyfeillgar i bob Oed ar ôl i'r prosiect 'Rural Wisdom' a ariennir gan y Loteri Fawr gau ym mis Ebrill 2021



Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys nifer o egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cael eu hadnabod fel y pum ffordd o weithio:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

Mae'r egwyddorion hyn yn rhan greiddiol o'r holl waith mae'r Bwrdd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Mae'r enghreifftiau canlynol yn darparu tystiolaeth o brif waith y Bwrdd y mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyfeirio ato.

Hirdymor

- Mae'r Bwrdd wastad yn meddwl am y dyfodol, trwy ddatblygu gweithgareddau ac asedau sy'n gynaliadwy e.e. sefydliadau partner yn lleihau eu sail adnoddau
- Bydd yr Hwb Cymorth Cynnar yn darparu gwelliannau yn y tymor hir i'r rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth
- Bydd cydweithio ar newid hinsawdd yn cyfrannu tuag at uchelgais hirdymor i leihau carbon

Atal

- Mae model Presgripsiynu Cymdeithasol Sir y Fflint wedi'i anelu at atal a lleihau galw ar wasanaethau cyhoeddus trwy ddefnyddio ymateb cymunedol ac ymarferol i broblemau cymdeithasol unigolyn
- Nodwyd 'Yr Amgylchedd' fel blaenoriaeth i sicrhau bod ein hasedau tir a dŵr yn cael eu gwarchod a'u datblygu fel lleoedd cymunedol - elfen bwysig i iechyd a lles

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Integreiddio

- Dylai'r Hwb Cymorth Cynnar gael effaith gadarnhaol ar nifer o amcanion lles partneriaid, o ystyried ei fod yn ateb i broblem sy'n effeithio ar nifer o bartneriaid; iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth tân ac achub yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg y Cyngor
- Mae blaenoriaethau'r Bwrdd yn cael eu harwain gan uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r sefydliadau allweddol

Cydweithio

- Mae holl waith y Bwrdd eleni wedi bod yn waith ar y cyd - nid oes unrhyw gorff yn gweithio ar ei ben ei hun

Cynnwys

- Mae'r Bwrdd wedi mynd ati i gynnwys unigolion a chymunedau lle'r oedd yr effeithiau'n debygol o gael eu teimlo fel cymunedau ar yr Holway, a rhieni a gofalwyr teuluoedd diamddiffyn

Datblygiadau yn y Dyfodol

Bwriad y Bwrdd oedd gwneud Adroddiad Blynyddol 2019/20 yn fwy:

- Deinamig
- Digidol ryngweithiol, gyda mwy o fideos a blogiau
- Cynnwys cyfeiriadau at y dangosyddion cenedlaethol (lle bo hynny'n berthnasol) a
- Gwell ystyriaeth i sut mae'r BGC yn gweithredu'r 5 ffordd o weithio wrth adrodd ar gynnydd

Oherwydd pandemig y Coronafeirws (COVID-19) ac adleoli staff ac adnoddau, ni fu hyn yn bosibl. Gohiriwyd gwaith manwl yn ymwneud â chynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol tra daeth gwaith i helpu i ddelio â'r argyfwng presennol yn flaenoriaeth i'r sefydliadau unigol sy'n rhan o BGC Sir y Fflint ac i'r BGC yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, mae'r Bwrdd yn bwriadu tynnu sylw at y datblygiadau hyn yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21.

